**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 30 Ebrill 2018**

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
Desmond Clifford
Tracey Burke
David Richards
Gawain Evans
Peter Kennedy
Jeff Godfrey
Gillian Baranski
Elan Closs Stephens
Ann Keane
James Turner
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Lynne Schofield
Catherine Ashford

**Yn cefnogi:**
Paul Sullivan (Eitem 1)
Joanne Glenn (Eitem 2)
Helen Morris (Eitem 3)
Jo Salway (Eitem 4)
Katie Antippas (Ochr yr Undebau Llafur)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Rob Jones

**Sylwedydd:**
Birgitte Magnussen

**Ymddiheuriadau:**
Natalie Pearson
Andrew Slade

## Cyflwyniad

Croesawyd Katie Antippas, Ochr yr Undebau Llafur, i'r cyfarfod gan yr Ysgrifennydd Parhaol, a ddywedodd mai dyma fyddai'r cyfarfod olaf y byddai Katie yn ei fynychu yn ei rôl fel Cadeirydd Ochr yr Undebau Llafur. Diolchwyd i Katie am helpu i sicrhau bod model modern ac effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar waith rhwng Llywodraeth Cymru ac Ochr yr Undebau Llafur. Hefyd, croesawyd Birgitte Magnussen, fel sylwedydd ar leoliad STEP o fewn swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol.

## 1. Strategaeth Leoli

1.1 Rhoddodd Paul Sullivan, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau, y newyddion diweddaraf ynghylch Strategaeth Leoli 2015-2020, a'r cynigion ar gyfer strategaeth 2020 - 2025. Dywedodd Paul fod y Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol wedi adolygu a diwygio egwyddorion arwain ac amcanion drafft y strategaeth mewn ymateb i sylwadau a wnaed yn y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2017. Y bwriad oedd sicrhau bod yr egwyddorion a'r amcanion yn

parhau'n sail addas ar gyfer fframwaith hyblyg sy'n gallu llywio cynlluniau'r ystad yn y dyfodol, a hynny'n unol ag anghenion busnes ac amcanion sefydliadol.

1.2 Awgrymodd Des Clifford y dylai’r egwyddorion arwain fod yn gydnaws ac wedi eu hintegreiddio ag anghenion busnes sylfaenol ac anghenion gweithredu polisïau Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Bwrdd, a dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y dylai'r Strategaeth Leoli adlewyrchu uchelgais wleidyddol.

1.3 Roedd James Turner yn teimlo bod y modd yr oedd y staff wedi eu gwasgaru, yn enwedig y rheini ar fand yr Uwch Wasanaeth Sifil, yn parhau i gael ei weld fel rhywbeth a oedd wedi ei ganoli'n ormodol ar Gaerdydd, a holodd a fyddai'n bosibl cael atebion digidol i'r cyfyngiadau daearyddol. Adleisiodd Elan Closs Stephens y teimladau hyn, gan nodi bod lefelau boddhad y staff ar wasgar (sef staff nad oeddent wedi eu lleoli yng Nghaerdydd) yn cael sgôr gyson is yn yr Arolwg Pobl. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn rhannu'r pryderon hyn, ac roedd yn teimlo y dylid rhoi sylw i unrhyw ymdeimlad fod yna fwlch mewn arweinyddiaeth drwy sicrhau bod y tîm uwch yn fwy gweladwy. Roedd hi hefyd yn teimlo y dylid gwneud ymdrech i efelychu'r sgoriau uchel yn yr Arolwg Pobl a gafwyd mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheoli newid ym Merthyr Tudful, ac y dylid rhoi'r gwersi a ddysgwyd yno ar waith ar draws y sefydliad.

**Cam gweithredu: Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ym Merthyr Tudful, yn enwedig o'r rhaglen beilot ar weithio ystwyth, yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth. (Paul Sullivan)**

1.4 Holodd James Turner a fyddai cyfle i ystyried yn ehangach ystad y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun Diwygio Llywodraeth Leol. Cytunwyd nad oedd y polisi o weithredu cymhareb 8/10 o staff i ddesgiau wedi achosi unrhyw bwysau sylweddol hyd yn hyn, gan fod digon o gapasiti yn y swyddfeydd presennol, er y dywedodd Katie Antipass y gallai hynny newid pe bai un o'r swyddfeydd mawr yn cau. Hyd yn hyn, mae'r strategaeth wedi sicrhau arbedion sylweddol, a holodd Katie a fyddai'n bosibl ail-fuddsoddi'r arbedion hynny yn y rhaglen TGCh ddigidol i sicrhau bod y system gweithio ystwyth i staff yn cael ei chefnogi'n llawn.

1.5 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y dylid nodi'r gwersi a ddysgwyd o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, yn enwedig o ran y gallu i ddatblygu timau arbenigol y tu allan i ardal Caerdydd.

**Cam gweithredu: Nodi ac ystyried y gwersi a ddysgwyd o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. (Paul Sullivan)**

1.6 Cafodd Paul a'i dîm eu llongyfarch ar y llwyddiannau a gafwyd hyd yn hyn gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Cytunodd Shan y dylai'r egwyddorion adlewyrchu'r cydbwysedd priodol wrth sicrhau arbedion ariannol, yn ogystal â helpu i lywio newidiadau i'r diwylliant a ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys anghenion digidol a'r angen i weithredu system gweithio

ystwyth. Hefyd gofynnodd Shan am gael rhagor o wybodaeth am y risgiau ariannol sydd ynghlwm wrth ad-drefnu'r ystad.

**Cam gweithredu: Bydd rhagor o wybodaeth am risgiau ariannol yn cael ei rhoi i'r Ysgrifennydd Parhaol. (Paul Sullivan)**

1.7 Cytunwyd y byddai Paul a'i dîm yn adolygu dyddiadau lesio ystad allweddol yn rheolaidd, er mwyn sicrhau na chollir unrhyw gyfleoedd i arbed. Y Pwyllgor Gweithredol fydd yn gyfrifol am wneud y gwaith o oruchwylio ac ystyried y cyfleoedd hyn, yn ogystal â gwneud unrhyw benderfyniadau allweddol angenrheidiol.

1.8 Bydd angen cynnal deialog gynnar gyda Phrif Weinidog newydd Cymru er mwyn craffu ar y cynigion sy'n weddill ar gyfer ad-drefnu'r ystad, cyn i'r Bwrdd allu gymeradwyo'r strategaeth yn llawn. Caiff cynnig, sy'n cynnwys costau llawn a thrafodaethau'r Bwrdd, ei baratoi i'r Prif Weinidog newydd ei ystyried.

**Cam gweithredu: Y cynigion ar gyfer y Strategaeth Leoli i gael eu diweddaru a'u paratoi i'w hystyried gan y Prif Weinidog newydd. (Paul Sullivan)**

## 2. Amrywiaeth a Chynhwysiant

2.1 Ymunodd Joanne Glenn, Pennaeth Cydraddoldeb a'r Gweithle, â Gillian Baranski i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud ag Amrywiaeth a Chynhwysiant i'r Bwrdd.

2.2 Yn ddiweddar, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at Jeremy Heywood, yn nodi'r llwyddiannau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r heriau a oedd yn wynebu Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd ati i geisio gwireddu ei huchelgais i fod yn esiampl o'r radd flaenaf yn y maes hwn. Mae yna awydd cryf i fabwysiadu targedau agored ac uchelgeisiol, a hefyd i sicrhau bod y targedau hynny'n gredadwy, gan nad yw Shan am drosglwyddo targedau afrealistig i'w holynydd. Nododd y Bwrdd nad oedd yn bosibl cyflawni targedau a nodau mewn modd ynysig, rhaid bod perthnasedd a chysylltiadau agos â pholisïau a strategaethau ehangach megis y canlynol: y strategaeth leoli, gweithio hyblyg ac ystwyth, y gweithlu/cynllunio ar gyfer olyniaeth, recriwtio, a rheoli talent.

2.3 Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch rhwydweithiau amrywiaeth staff, ac roedd y trafodaethau'n cynnwys pwysigrwydd sicrhau llwyddiant wrth rannu swyddi, a chryfhau'r cymorth mamolaeth sydd ar gael i fenywod yn y gweithle. Clywodd y Bwrdd am fesurau sy'n cael eu gweithredu i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau. Gwnaed ymdrech eisoes i ddenu mwy o fenywod i ymgeisio am swyddi uwch, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau wedi ymrwymo i'r fenter gymhareb '50:50 erbyn 2020'. Nododd y Bwrdd y gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflawni hyn. Bellach, mae cyrsiau datblygu ar gael i fenywod, a chynigir mwy o gymorth i fenywod sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. Hefyd cymerwyd camau i sicrhau bod hysbysebion swyddi yn gynhwysol. Mae gwaith gyda Chwarae Teg yn mynd rhagddo i feincnodi'r gwahaniaeth cyflog a llunio cynllun gweithredu i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n ymwneud â rhywedd. Cafwyd nifer o awgrymiadau gan yr aelodau, gan gynnwys gofal plant diogel a fforddiadwy, mynd i'r afael â

rhagfarn ddiarwybod, pwysigrwydd mentora, sicrhau bod swyddi rhan-amser ar gael ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil a'r Band Gweithredol, ac adolygu nifer o bolisïau corfforaethol.

2.4 Trafodwyd llwyddiant y rhaglen brentisiaethau, a materion yn ymwneud â recriwtio pobl dduon ac Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig (BAME). Nodwyd y targedau newydd ar gyfer recriwtio pobl anabl a phobl BAME i'r Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2025. Roedd Desmond Clifford o'r farn y gallai'r tîm ystyried lunio'r targedau BAME mewn modd sy'n adlewyrchu'n fras gyfansoddiad poblogaeth Cymru, a chynigiodd helpu Gillian a'r tîm i gysylltu â chydweithwyr sy'n ymwneud â Brexit sydd eisoes â dadansoddiad o'r data hyn. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol bod angen ystyried ymhellach y syniad o ddefnyddio nawdd fel modd o annog staff anabl a BAME sydd ar y graddau bwydo i ymgeisio am swyddi ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil. Hefyd nododd y Bwrdd bwysigrwydd annog symudedd cymdeithasol.

2.5 Clywodd y Bwrdd fod y rhwydwaith i bobl drawsryweddol a rhyngrywiol yn y Gwasanaeth Sifil, a:gender, wedi dyfarnu Statws Aur y safonau Polisi Trawsryweddol a Rhyngrywiol i Lywodraeth Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol.

2.6 Nododd yr aelodau fod noddwyr a hyrwyddwyr Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar waith yn y Uwch Wasanaeth Sifil a chytunwyd eu bod yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i wella diwylliant ac agweddau yn y sefydliad drwy fod yn fodelau rôl gweladwy. Maent yn helpu i gynnal tryloywder ac atebolrwydd ar bob lefel yn y sefydliad mewn perthynas â'r materion hyn. Mynegodd Ellen Donovan ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cynlluniau mentora, yn enwedig mentora o chwith. Nododd y Bwrdd y gwaith a oedd yn cael ei gyflawni i gefnogi staff anabl ac i annog pobl i ddiweddaru eu data amrywiaeth.

2.7 Llongyfarchodd y Bwrdd Gillian a Joanne Glenn ar y cynnydd a gafwyd hyd yn hyn yn erbyn y targedau, yn enwedig o ran llwyddiant y rhaglen ar gyfer recriwtio allanol, yn enwedig prentisiaid. Cytunodd yr aelodau y dylai'r strategaeth hon barhau i ganolbwyntio ar bobl BAME a phobl anabl er mwyn manteisio ar bob cyfle i wireddu targedau 2020, a chytunwyd hefyd i ehangu'r cylch gwaith er mwyn datblygu cyfleoedd lleoli penodol ar gyfer grwpiau ychwanegol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Cynigiodd Tracey Burke a Des Clifford eu cefnogaeth bersonol ar gyfer y rhaglen hon.

2.8 Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol yr heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu cynrychiolaeth pan fo gweithlu cymharol sefydlog, a chyfyngiadau llym ar nifer y staff y ceir eu cyflogi. Fodd bynnag ail bwysleisiodd ei hymrwymiad cryf i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyrraedd sefyllfa lle yr oedd pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gyfforddus o ran bod yn nhw eu hunain o fewn y sefydliad, a hynny cyn iddi hi ymadael â'i swydd. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr angen am negeseuon o ddydd i ddydd ac am ymrwymiad tymor hir i gyflawni'r nod hwn, a hefyd yr angen i sicrhau mai dim ond y rheini sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn fyddai'n ffynnu o fewn y sefydliad.

## 3. Y Gofrestr Risg Corfforaethol

3.1 Cyflwynodd Helen Morris, Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd, yr wybodaeth ddiweddaraf a roddir ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd ynghylch y Gofrestr Risg Corfforaethol. Ystyriodd y Bwrdd y risgiau corfforaethol a thrawsbynciol, yn ogystal â'r risgiau a gynigir i’w cynnwys ar y gofrestr neu eu tynnu oddi arni.

3.2 Cymeradwyodd y Bwrdd y diweddariadau a argymhellwyd gan Helen Morris yn y papur, er y gofynnodd Ellen Donovan i'r risg a oedd yn ymwneud â Chyrff Hyd Braich gael ei hystyried ymhellach, ac atgoffodd y Bwrdd o'r Adolygiad diweddar o Gyrff Hyd Braich, a oedd yn nodi 30 o gamau gweithredu ac argymhellion. Roedd y Bwrdd yn gytûn y byddai cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y camau gweithredu hyn yn ddefnyddiol.

3.3 Tynnodd Tracey Burke sylw at y posibilrwydd o adolygu risgiau Diwygio Llywodraeth Leol, er mwyn ystyried eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risg Corfforaethol, yn benodol o ran yr effaith bosibl ar feysydd gwaith megis addysg ranbarthol a diwygio'r cwricwlwm.

**Cam gweithredu: Papur i'w Nodi i'w baratoi ar gyfer y Bwrdd ar y cynnydd yn erbyn y 30 o argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Gyrff Hyd Braich.**

3.4 Nododd Elan Closs Stephens y dylid ystyried risgiau Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru ar lefel Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Llywodraeth Cymru.

**Cam gweithredu: Risgiau Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i'w hystyried mewn cyfarfod o Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.**

## 4. Papur y Cabinet ar yr Archwiliad i Gynnydd Ffyniant i Bawb - y sefyllfa bresennol

4.1 Rhoddodd Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, y newyddion diweddaraf am y prif negeseuon a fydd yn cael eu cynnwys ym Mhapur y Cabinet ar yr archwiliad i gynnydd y strategaeth Ffyniant i Bawb, a oedd yn cael ei baratoi i'w drafod yn y Cabinet ar 15 Mai 2018. Awgrymodd Ann Keane y byddai’n ddefnyddiol cael diweddariad pellach ar ôl y cyflwyniad i'r Cabinet yn y gobaith y byddai hynny'n darparu dadansoddiad mwy manwl o'r materion penodol a'u goblygiadau.

4.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn ddiolchgar i Jo am y diweddariad, a hefyd i'r holl dîm uwch ac i bawb a oedd yn bresennol am gyflawni eu dyletswyddau i safon mor uchel mewn amgylchedd gwleidyddol heriol.

## 5. Y Cyfarwyddwyr Anweithredol

5.1 Soniodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol, Elan Closs Stephens a James Turner, am lwyddiannau'r gorffennol, a hefyd am yr heriau y byddai'r sefydliad yn eu hwynebu yn y dyfodol, a sut y gallai'r Bwrdd ymateb iddynt. Diolchodd y Bwrdd i'r ddau ohonynt am eu blynyddoedd lawer o wasanaeth gwerthfawr.

**Swyddfa Breifat yr Ysgrifennydd Parhaol, 30 Ebrill 2018**

**Camau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Bwrdd ar 30 Ebrill 2018**

| CAM GWEITHREDU | Y SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Strategaeth Leoli** | | |
| Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ym Merthyr Tudful, yn enwedig o'r rhaglen beilot ar weithio ystwyth, yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth. | Paul Sullivan | |
| Nodi ac ystyried y gwersi a ddysgwyd o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. | Paul Sullivan | |
| Bydd rhagor o wybodaeth am risgiau ariannol yn cael ei rhoi i'r Ysgrifennydd Parhaol. | Paul Sullivan | |
| Y cynigion ar gyfer y Strategaeth Leoli i gael eu diweddaru a'u paratoi i'w hystyried gan y Prif Weinidog newydd. | Paul Sullivan | |
| **Y Gofrestr Risg Corfforaethol** | | |
| Risgiau Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i'w hystyried mewn cyfarfod o Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. | Yr Ysgrifenyddiaeth / Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | |
| Papur i'w Nodi i'w baratoi ar gyfer y Bwrdd ar y cynnydd yn erbyn y 30 o argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Gyrff Hyd Braich. | Helen Morris | |

**Camau sydd heb eu gweithredu 2017-18**

| CAM GWEITHREDU | Y SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Ffyniant i bawb** | | |
| Jo Salway a'r Ysgrifennydd Parhaol i gyfarfod i drafod y tabl Atebolrwydd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Jo Salway/Yr Ysgrifenyddiaeth | |
| **Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR REOLI DATA** | | |
| Sylw i gael ei roi i faterion yn ymwneud ag adnoddau prosiect | Steve Marshall/ Peter Kennedy | |

| | | |
|---|---|---|
| **Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR REOLI DATA** | | |
| Staff sydd ag iffonau Llywodraeth Cymru a gweithwyr o bell i gael eu cofrestru ar y gwasanaeth negeseuon testun brys | Peter Kennedy/ Paul McDonagh | |
| **Dilyniant Busnes** | | |
| Yr wybodaeth am y sianeli cyfathrebu sydd ar gael i staff i gael ei chyhoeddi | Natalie Pearson | |